GIG Cymru – Delerau Defnyddio (Cleifion a Defnyddwyr y Gwasanaeth)

1. Cyffredinol

1.1 Gwasanaeth Cenedlaethol ydy Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru, sydd yn galluogi apwyntiadau iechyd mewn modd diogel a chyfrinachol, yn hytrach na wyneb-i-wyneb. Darparir y gwasanaeth trwy meddalwedd cysylltu ar-lein 'Attend Anywhere'.

1.2 Mae'r delerau Defnyddio yma yn berthnasol i chi tra'n defnyddio 'Attend Anywhere', a'r Gwasanaeth Apwyntiad Video a greuwyd gan GIG Cymru.

1.3 Yn y Delerau yma:

Mae **Gwasanaeth Apwyntiadau Video GIG Cymru** yn golygu nifer o wasanaethau, meddalwedd rheoli ar-lein, ac unrhyw isadeiledd sydd yn gysylltiedig a GIG Cymru, sydd yn ceisio gwella mynediad i wasanaethau a ddarparir gan darparwyr Iechyd a Gofal fel rhan o'u gweithredoedd dydd-i-ddydd.

Mae **GIG Cymru,** neu **ni** yn golygu GIG Cymru.

Mae **Darparwyr** yn golygu'r darparwyr Iechyd neu Gofal (Bwrdd Iechyd, Meddyginiaeth Cyffredinol, Gwasanaeth Ambiwlans, 111 neu darparwyr iechyd tu allan i oriau gweithio) sydd yn eich gwahodd i ddefnyddio'r Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru er mwyn cael mynediad i'w gwasanaethau.

Mae **Ystafell Aros** yn golygu man aros tu fewn y gwefan lle'r ydych yn aros i gael eich gwahodd i apwyntiad fideo gyda'r darparwyr er mwyn derbyn gwasanaeth meddygol. Rydych yn cael mynediad i ystafell aros drwy gwasgu botwm ar y wefan cywir, ac yn aros.

Mae **Ystafell Fideo** yn golygu ystafell sydd wedi'i greu ar eich gyfer chi pan yr ydych yn mynd i mewn i ystafell aros.

Mae **chi** neu **eich** yn golygu unigolyn sydd wedi'i gwahodd ac yn defnyddio'r Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru.

2. Derbyn y Delerau Defnyddio

2.1 Trwy ddefnyddio Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru, rydych yn derbyn y delerau yma, sydd yn llywodraethu'n

perthynas ni gyda chi mewn gysylltiedig a'r Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru.

2.2 Mae'n bosib byddwn yn newid neu'n diwygio'r Delerau Defnyddio, trwy cynnwys fersiwn newydd yn y linc "Delerau Defnyddio" ar y we. Fe wnaiff GIG Cymru ei orau i hysbysebu'r newidiadau yma a thrwy defnyddio Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru rydych yn cytuno ag unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud.

3. Gofynion y Gwasanaeth

3.1 Mae angen mynediad gan Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru i'ch cyfrifiadur, ffôn, i'r we, ac unrhyw teclyn neu offer perthnasol i gyrraedd y safonau technegol cywir (anghenion systemig) er mwyn darparu'r gwasanaethau. Ni fydd GIG Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros broblemau sydd yn gysylltiedig a'ch anallu i dderbyn y gwasanaeth oherwydd nad yw'r offer, neu cyflymder y we yn cyrraedd yr anghenion systemig cywir.

3.2 Er mwyn defnyddio'r Gwasanaeth yma mae'n rhaid cael cymysgedd cywir o caledwedd a phorwyr a chefnogir gan GIG Cymru (Amgylchedd Wedi Cefnogi).

3.3 Ar gyfer y gwasanaeth yma mae angen defnyddio offer clywed a siarad (camera-we, siaradwyr ayyb) sydd yn gweithio gyda'ch teclynnau neu cyfrifiadur.

4. Eich Defnydd Chi o'r Gwasanaeth

4.1 Cewch ddefnyddio'r Gwasanaeth yma, a chael mynediad i'r Ystafell Aros os ydych wedi cael gwahoddiad neu chaniatâd yn unig.

4.2 Mae'n bosib bod delerau defnydd ychwanegol yn gysylltiedig a'r gwasanaethau a ddarparir trwy'r Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru, neu gan unigolion sydd yn darparu gwasanaeth ar rhan GIG Cymru. Eich cyfrifoldeb chi ydy adolygu'r delerau sydd yn gysylltiedig a'r gwasanaethau yma.

4.3 Mae gennym yr hawl i ddod a'ch mynediad i'r gwasanaeth i ben os nad ydych yn cydymffurfio â thermau'r Gwasanaeth.

5. Ymwadiad

5.1 Mae GIG Cymru yn ymwadu unrhyw gwarant a fynegir neu awgrymir, sydd a'r gallu o gael ei gontractio allan mewn perthynas â Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru gan gynnwys unrhyw warant ar gywirdeb, masnachadwyedd, ffitrwydd neu am unrhyw rheswm sydd heb eu dorri. Rydym yn ymwadu unrhyw gwarant sydd yn berthnasol a diogelwch, dibynadwyedd, prydlondeb, argaeledd, a pherfformiad Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru.

5.2 Heb unrhyw gyfyngiad i rhan 5.1, ni fyddwn y gwneud unrhyw gwarant yn gysylltiedig i'r perchnogaeth, parhad, addasrwydd neu ffitrwydd eiddo deallusol a ddefnyddir yn y Gwasanaeth Apwyntiad Fideo GIG Cymru.

5.3 Ni rydym yn gwarantu fod gennych mynediad parhaol a ddi-dor i Wasanaeth Apwyntiad Fideo GIG Cymru neu fod Gwasanaeth Apwyntiad Fideo GIG Cymru yn cydymffurfio ag unrhyw lefelau neu safonau perfformiad penodol.

5.4 Ni rydym yn gwarantu fod Gwasanaeth Apwyntiad Fideo GIG Cymru yn rhydd o unrhyw côd, feirws, neu halogyddion eraill. Ni rydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ymyrraeth neu difrod i'ch offer, isadeiledd, meddalwedd, neu data a ddaw o defnyddio Gwasanaeth Apwyntiad Fideo GIG Cymru.

5.5 Mae'n bosib fod y wefan yn cynnwys dull linc i wefannau eraill. Rydych yn cydnabod ac yn cytuno nad oes unrhyw gyfrifoldeb gennym dros y wefannau yma, a ni rydym yn cymeradwyo unrhyw sefydliad neu endid priodol.

5.6 Rydych yn cytuno mae trwy disgresiwn a risg eich hun yr ydych yn defnyddio Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru, ac yn ôl a hawl a geir gan y gyfraith. Rydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golled, difrod, neu chost a creuir ganddoch chi tra'n defnyddio'r Gwasanaeth yma, gan gynnwys, ind nid yn gyfyng i;

5.6.1 Defnyddio am bwrpas nad oedd yn fwriad gwreiddiol.

5.6.2 Yr anallu i gael mynediad, ddi-dor, parhaol, a dibynadwy i Wasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru.

5.6.3 Difrod neu ymyrraeth i unrhyw ddarn o offer, meddalwedd, caledwedd, neu declyn a ddefnyddir mewn cysylltiad a'ch defnydd chi o Wasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru, cynnwys, neu'r wefan.

6. Hawlfraint a Nôd Masnach

6.1 Mae unrhyw ddefnydd o frand, cynnwys (heb gyfyng), tecst, lluniau, gwybodaeth pensaernïol, côd (gan gynnwys unrhyw hawlfraint) wedi'i berchen neu trwyddedi ganddyn ni.

6.2 Nid oes unrhywbeth yn y Delerau yma a fyddai'n caniatáu unrhyw hawliau, teitlau, neu diddordebau tu fewn 'Attend Anywhere', i chi.

6.3 Fe allwch cael mynediad i Wasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru pan ar gael, ond ni alwch newid, cyhoeddi, trosglwyddo, dosbarthu neu cymryd rhan mewn gwerthiant neu trosglwyddo, creu gwaith deilliadol, neu ecsbloetio mewn unrhyw ffordd Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru yn llawn neu'n rhannol heb caniatâd ysgrifenedig perchennog y deunydd.

6.4 Mae'n bosib fod Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru yn cynnwys nodiadau masnachol sydd n berchen i ni a grwpiau Trydydd Rhan. Ni alwch arddangos neu defnyddio unrhyw nodiadau masnach mewn unrhyw ffordd, a welir ar wefan Gwasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru heb ganiatâd perchennog y nôd masnach.

7. Cyfraith Llywodraethol

7.1 Mae eich defnydd o Wasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru, ac unrhyw ddadl sydd o ganlyniad i'ch defnydd o Wasanaeth Apwyntiadau Fideo GIG Cymru, yn fater i'r gyfraith yma yng Nghymru.